Estyn

Mae Estyn, sef yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn gorff y Goron a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn arolygu ansawdd a safonau mewn ysgolion, colegau, gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a meysydd eraill.

Bydd pob darparwr addysg a hyfforddiant yn cael ei arolygu o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod 7 blynedd a ddechreuodd ar 1 Medi 2016. Mae ysgolion, colegau arbenigol annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cael 3 wythnos o rybudd ysgrifenedig o arolygiad; mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cael 10 wythnos o rybudd ac mae pob sector arall (meithrinfeydd nas cynhelir, addysg bellach, hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a Chymraeg i oedolion) yn cael 4 wythnos o rybudd.

Y fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer ysgolion a dysgu yn y gwaith

Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol colegau arbenigol annibynnol a darparwyr dysgu yn y gwaith..

Meysydd arolygu 1 → **Safonau**

Meysydd arolygu 2 → **Lles ac agweddau at ddysgu**

Meysydd arolygu 3 → **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Meysydd arolygu 4 → **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Meysydd arolygu 5 → **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Y barnau

Rhagorol	Da	Digonol ac angen gwella	Anfoddhaol ac angen gwelliant brys
Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig.	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau.	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella.	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau.

Bydd addysg bellach a lleoliadau meithrin nas cynhelir yn parhau i gael eu harolygu gan ddefnyddio Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010

Cwestiwn allweddol 1 → **Deilliannau**
- Safonau
- Lles

Cwestiwn allweddol 2 → **Darpariaeth**
- Profiadau dysgu
- Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Amgylchedd dysgu

Cwestiwn allweddol 3 → **Arweinyddiaeth a'r rheolaeth**
- Arweinyddiaeth
- Gwella ansawdd
- Gweithio mewn partneriaeth
- Rheoli adnoddau

Y barnau

Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol
Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector.	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol.	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella.	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r diffygion.

Gweithgarwch dilynol ar arolygiadau

Mae hyn yn dibynnu ar ffactorau fel y barnau a ddyfarnwyd a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o 'weithgarwch dilynol'.

	Ysgol	ALI	Nas cynhelir	ÔI-16**	Dysgu yn y gwaith
Monitro gan yr awdurdod lleol	X		X		
Adolygu gan Estyn	X				X
Monitro gan Estyn		X	X	X	
Gwelliant â ffocws			X		
Gwelliant sylweddol*	X	X			
Mesurau arbennig*	X	X			
Ailarolygiad				X	X

*yn dynodi categori statudol ** ac eithrio darparwyr dysgu yn y gwaith

Trefniadau arolygu: yr hyd a'r tîm

Lleoliadau nas cynhelir Nifer y diwrnodau: 1 Yn arwain: ACof Meithrin/AEM Nifer yr arolygwyr: 1	**Annibynnol** Nifer y diwrnodau: 3-3.5 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 3-7	**Dysgu yn y gwaith** Nifer y diwrnodau: 6 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 11
Cynradd Nifer y diwrnodau: 3 Yn arwain: AEM/ACof Nifer yr arolygwyr: 3-6	**Arbennig annibynnol** Nifer y diwrnodau: 3 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 3-4	**Cymraeg i oedolion** Nifer y diwrnodau: 4 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 5
Uwchradd Nifer y diwrnodau: 3.5 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 6-8	**Colegau arbenigol annibynnol** Nifer y diwrnodau: 3 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 3-4	**Timau troseddu ieuenctid** Nifer y diwrnodau: 4 Yn arwain: AEM Probation Nifer yr arolygwyr: 1
Arbennig Nifer y diwrnodau: 3 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 4-6	**Addysg bellach** Nifer y diwrnodau: 8 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 15 - 24	**Pob oed** Nifer y diwrnodau: 3.5 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 7-10
Unedau Cyfeirio Disgyblion Nifer y diwrnodau: 3 Yn arwain: AEM Nifer yr arolygwyr: 4-5	**Carchardai** Nifer y diwrnodau: 4 Yn arwain: HMI Prisons Nifer yr arolygwyr: 4	**Gwasanaethau addysg Llywodraeth Leol** Maent yn destun adolygiad
Dysgu oedolion Maent yn destun adolygiad	**Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon** Maent yn destun adolygiad	

± +1 AEM Ofsted os yw 10 neu fwy o ddysgwyr yn cael eu hariannu gan leoliad yn Lloegr (yn eithrio Colegau arbenigol annibynnol)

Ymholiadau'r cyfryngau

- Nid ydym yn gwneud sylw ar:
  - Arolygiadau neu adroddiadau arolygu unigol;
  - materion gwleidyddol; ac/neu
  - unrhyw ymholiadau yn ystod cyfnod cyn etholiad.
- Ni fyddwn yn datgelu canfyddiadau arolygiad cyn cyhoeddi.
- Byddwn yn ymateb i bob ymholiad gan y cyfryngau.
- Byddwn yn darparu llefarydd, os oes un ar gael.

Sicrhewch eich bod yn rhoi digon o rybudd.
Mae rhagor o wybodaeth am rolau ein harolygwyr ar ein gwefan.

Adnoddau

Adroddiad blynyddol
Arfer orau
Adroddiadau thematig

Cysylltwch â ni

(Dydd Llun i ddydd Gwener, 9-5pm)
Gina Rathbone / Ed Gilbert
02920 446317/ 6511
cyfathrebu@estyn.gov.uk